

# Pecyn adnoddau uwchradd **Eich Stori, Ein Hanes**

Mae'r pecyn hwn yn ategu dau fideo yn y gyfres **Eich Stori, Ein Hanes** gan ganolbwyntio ar ddeddfwriaeth LGBT.

## Beth sydd yn y pecyn?


Mae'r pecyn hwn yn gynnwys gwybodaeth gefndirol a chwestiynau i ddatblygu sut mae myfyrwyr yn meddwl am gydraddoldeb a deddfwriaeth.

### Mae'n cynnwys:

- Gwybodaeth gefndirol am y fideos
- Cwestiynau i'w hystyried
- Rhestr termau'r deddfwriaeth



Dywed y ddelwedd: Peter: Roedd Deddf Troseddau Rhywiol 1967 rwy'n meddwl yn gam go arbennig i'r hyn a ddilynodd.



Dywed y ddelwedd: Tia: Mae'r Ddeddf Partneriaeth Sifil rwy'n meddwl yn bwysig eithriadol i fi.

## Gwylwch stori Geoff a Peter

Yn y fideo hwn bydd myfyrwyr yn dysgu am brofiadau un cwpl o wahaniaethu oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol. Mae eu stori'n archwilio newidiadau deddfwriaethol sydd wedi digwydd yn ystod eu perthynas am 37 mlynedd, gan gynnwys Deddf Troseddau Rhywiol 1967 a sut mae'r Ddeddf hon wedi helpu newid bywydau llawer o bobl LGBT+ er gwell.

## Gwylwch stori Nadine a Tia

Yn y fideo hwn bydd myfyrwyr yn dysgu am brofiadau magwraeth Nadine a Tia a'u gobeithion am ddyfodol eu perthynas. Maent yn rhannu eu profiad ynghylch diddymu Adran 28 o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, a'r rhan oedd gan hyn yn ffurfio eu hunaniaeth fel merched cwiâr lliw.

# Cwestiynau

Ar ôl gwyllo'r fideos nawr trafodwch ac ystyriwch y cwestiynau canlynol.

1. Mae'r ddwy stori'n archwilio taith hawliau LGBT+ a'i effaith ar fywydau pobl. Pa ddeddfwriaeth y sonnir amdani yn y ddau fideo?
2. Cymharwch brofiad y ddau gwpl. Sut brofiad oedd hi i dyfu mewn cymdeithas a oedd yn troseddoli cyfunrhywiaeth (cyn derbyn Deddf Troseddau Rhywiol 1967) o gymharu â phrofiadau pobl heddiw?
3. Pa fathau o wahaniaethu a brofwyd gan Peter a Jeff? Sut yr effeithiodd arnynt? Allai hyn ddigwydd heddiw o dan ddeddfwriaeth bresennol?
4. Mae Nadine a Tia'n ystyried eu bod yn 'Ferched cwiar lliw', mae Nadine yn disgrifio ei hun yn teimlo fel 'anomaedd'. Pam ei bod yn dweud hyn?
5. Mae Geoff, Peter, Nadine a Tia yn rhan o'r gymuned LGBT+, mae'r gyfraith yn ymwneud â'u nodweddion gwarchoddedig, ond a yw eu profiadau a brofasant o gadarnhau, gwahaniaethu neu orthrwm yr un peth?
6. Soniwyd bod Deddf Troseddau Rhywiol 1967 yn 'gam' ar gyfer hawliau LGBT+ gan Peter a Jeff, ym mha ffordd roedd y ddeddf hon wedi dechrau newid pethau i ddynion hoyw, y gymuned LGBT a chymdeithas?
7. Rhannodd Nadine fod "dysgu am gyfunrhywiaeth yn yr ysgol yn ystod addysg rhyw yn wirioneddol gadarnhaol i fi fel plentyn yn ei harddegau". Pa newid yn y gyfraith a alluogodd hyn i ddigwydd?
8. Dywedodd Peter a Jeff nad oedd newidiadau yn y gyfraith "wedi newid rhagfarnau dros nos, dros amser wrth i'r gyfraith newid, mae cymdeithas yn newid." Archwiliwch atchweliad a datblygiad hawliau LGBT+ y soniwyd amdanynt yn y fideo a'u pŵer i ddylanwadu ar agweddau mewn cymdeithas.
9. Mae'r ddau fideo'n sôn am newidiadau yn y gyfraith ar gyfer datblygiad cynnydd hawliau LGBT a chydardoldeb, pwy arweiniodd y newid hwn? Ymchwiliwch rôl protestio, grwpiau lobïo, gweithredu ar lawr gwlad ac eiriolaeth cymunedol i greu newid deddfwriaethol.
10. Mae Nadine a Tia, Peter a Geoff yn siarad am eu cariad at ei gilydd a sut roeddent wedi cwrdd ar adegau gwahanol o dderbyn a gonestrwydd. Pa ddeddfwriaeth sy'n cydnabod eu cariad yn gyfreithiol a sut y mae hyn yn effeithio ar eu bywydau a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol?

# Rhestr termau'r ddeddfwriaeth

<b>Deddf Troseddau Rhywiol 1967</b>	<p>Roedd y Ddeddf hon wedi dad-droseddoli perthnasau rhywiol rhwng dau ddyn dros 21 ac 'yn gyfrinachol'. Cyn derbyn y Ddeddf hon, gellid cyhuddo dynion o 'anwedduster difrifol' a'u carcharu.</p> <p>Yn y cyfnod cyn y Ddeddf hon, amheuwyd cyfreithlondeb y gyfraith gan y cyhuddwyd sawl dyn uchel eu proffil o anwedduster. Er enghraifft, aeth Alan Turin, torrwr codau'r Ail Ryfel Byd, o flaen ei well ym 1952. Fe'i gyhuddwyd o 'anwedduster difrifol' a chynigiwyd therapi hormonau neu garchar iddo. Ymchwiliodd adroddiad Wolfenden a gyhoeddwyd ym 1957 y gyfraith mewn perthynas â chyfunrhywiaeth. Yn ei adroddiad, dadleuodd yr Arglwydd Wolfenden 'na fyddai ymddygiad cyfunrhywiol rhwng dau oedolyn a oedd yn cydsynio'n gyfrinachol yn drosedd bellach', fodd bynnag aeth 10 mlynedd arall heibio tan y newidiwyd y gyfraith.</p> <p><small>*Nid oedd Deddf 1967 yn cynnwys pob cenedl yn y DU neu'r lluoedd arfog. Daeth deddfwriaeth i rym fel a ganlyn: Yr Alban (1980), Gogledd Iwerddon (1982), Guernsey (1983), Jersey (1990), Ynys Manaw (1994) a'r Lluoedd Arfog (2000)</small></p>
<b>Deddf Llywodraeth Leol 1988 (Adran 28)</b>	<p>Datganodd Adran 28 y Ddeddf Llywodraeth Leol na fydd llywodraeth leol "yn hyrwyddo cyfunrhywiaeth yn fwriadol neu'n cyhoeddi deunydd gyda'r bwriad o hyrwyddo cyfunrhywiaeth" neu'n "hyrwyddo addysgu mewn unrhyw ysgol a gedwir derbyn cyfunrhywiaeth fel perthynas deuluol a honnir".</p>
<b>Deddf Troseddau Rhywiol 1994 a 2000</b>	<p>Penderfynodd Tŷ'r Cyffredin y DU ostwng yr oedran cydsynio ar gyfer perthnasau un-rhyw rhwng dynion i 16. Dirymwyd y bleidlais, a gostyngwyd yr oedran cydsynio i 18 yn lle hynny. Ni nodwyd oedran cydsynio ar gyfer perthnasau un-rhyw rhwng merched. Gostyngodd Deddf Troseddau Rhywiol (Diwygiad) 2000 oedran cydsynio ar gyfer perthnasau un-rhyw rhwng dynion i 16.</p>
<b>Deddf Llywodraeth Leol 2003</b>	<p>Yn 2003 diddymwyd Adran 28 y Ddeddf Llywodraeth Leol, a dynnodd y cyfyngiadau i ysgolion siarad am gyfunrhywiaeth yng nghyd-destun addysg rhyw a phartneriaeth.</p>
<b>Deddf Partneriaeth Sifil 2004</b>	<p>Rhoddodd y Ddeddf hon yr un hawliau a chyfrifoldebau i gyplau un-rhyw â chyplau heterorywiol sy'n briod yn Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru.</p>
<b>Deddf Cydraddoldeb 2010</b>	<p>Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diogelu pobl yn gyfreithiol rhag gwahaniaethu yn y gweithle a'r gymdeithas ehangach. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn diogelu pobl rhag gwahaniaethu oherwydd y 'nodweddion gwarchoddedig' sydd gennym i gyd.</p> <p>Y naw nodwedd warchoddedig yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.</p>
<b>Deddf Priodas (Cyplau Un-Rhyw) 2013</b>	<p>Derbyniwyd y Ddeddf hon yn Lloegr a Chymru yn 2013 a daeth i rym yn 2014, gyda'r priodasau un-rhyw cyntaf yn Lloegr a Chymru'n cael eu cynnal ar 29 Mawrth 2014. Derbyniodd Llywodraeth yr Alban ddeddfwriaeth a oedd yn caniatáu i gyplau un-rhyw briodi yn yr Alban yn 2014.</p>